| | EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD YNYS MÔN 2026 |
|---|---|
| | Cystadleuaeth rhif 10 - Parti Unsain Bl.6 ac iau (YC) |
| | SGORIO GÔL I GYMRU – Catrin Angharad Jones |

## Yn arbennig ar gyfer Ynys Môn 2026

**Gellir** canu'r enwau sydd yn y copi gwreiddiol.

**Neu** gallwch ganu'r enwau sydd mewn lliw glas isod, neu enwau pêl-droedwyr eraill o Gymru - gan gynnwys aelodau o'ch tîm pêl-droed lleol chi. Bydd angen i nifer y sillafau a'r pwyslais yn yr enwau gyd-fynd â'r enwau gwreiddiol.

### Pennill 1

Pan fyddai'n fawr, yn gryf fel cawr a thal fel Gareth Bale,
Dwy droed ar ras mewn sannau bras, fel Fishlock ar y bêl,
Gwisgo'r crys yn un o chwys, fel Ingle yn y gad,
Cic am y gôl, heb edrych nôl, a sgorio dros fy ngwlad!

### Pennill 2

Byddaf rhyw ddydd yn seren fydd yn enwog wyddoch chi,
Cwpan y Byd yn mynd â 'mryd, Ampadu, gwylia di!
Môr o liw cefnogwyr triw yn bloeddio dros eu gwlad!
Saethu i'r gôl, heb edrych nôl, a sgorio dros fy ngwlad!

**Mae'r URDD yn ymddiheurio os yw'r newidiadau hyn wedi peri dryswch – a diolch i bawb am eu cefnogaeth.**